# Cronfa Integreiddio Rhanbarthol – Proffil dwy dudalen

## *Rhaglen Ailalluogi Ranbarthol (PR010)*

Dengys y proffil hwn y manylion lefel uchel sy'n ymwneud â'r cynnig blynyddol, monitro a gwerthuso, gan gynnwys dangosyddion, mesurau perfformiad, gwariant a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

### Trosolwg/crynodeb o'r rhaglen

Mae'r Rhaglen yn cynnig ymyriad arbenigol gyda'r nod o hwyluso rhyddhau o'r ysbyty a chefnogi unigolion ag anghenion cymhleth, gan gynnwys dementia neu ddangosyddion clinigol cynnar. Gan wasanaethu ardaloedd Rhondda a Thaf i ddechrau, ehangodd y rhaglen i gynnwys rhanbarth Merthyr Tudful, gan sicrhau hygyrchedd ehangach.

Mae'r rhaglen deilwredig hon yn darparu gofal galluogi ac adsefydlu tymor byr i wella annibyniaeth pobl ar ôl bod yn yr ysbyty. Mae'n cynnwys cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar nodau gan weithlu integredig, gyda dros 90% o gyfranogwyr yn cyflawni eu nodau adsefydlu yn gyson. Trwy ganolbwyntio ar unigolion hŷn ag anghenion cymhleth, gan gynnwys dementia, yn ogystal â phobl ag anableddau dysgu neu gorfforol, mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â heriau gofal iechyd amrywiol.

Nod y fenter yw cynnal llif cleifion yn ystod cyfnodau galw brig drwy gynyddu cymorth drwy ofal canolraddol a gwasanaethau ailalluogi. Mae'n pwysleisio gofal personol i helpu pobl i adennill neu gynnal sgiliau yr effeithiodd salwch arnynt. Yn gyffredinol, mae'r rhaglen yn pwysleisio'r ymrwymiad i hybu annibyniaeth a gwella ansawdd bywyd unigolion sy'n trosglwyddo o'r ysbyty i'r cartref.

### Cynnyrch RIF:

*Model gofal sylfaenol:*

Adref o'r ysbyty

*Grŵp/au poblogaeth â blaenoriaeth:*

Pobl hŷn

*Galluogwyr:*

Gofal a alluogwyd gan dechnoleg

Datblygu ac integreiddio'r gweithlu

*Dull rhanbarthol:*

Mae'r rhaglen yn cael ei darparu gan BIP CTM ac ar hyn o bryd mae'n gweithredu yn RCT a Merthyr Tudful yn unig.


### Blaenoriaeth (Cysylltiedig â'r Cynllun Ardal)

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn mwynhau iechyd a lles da ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol yn hirach.

Bydd pobl hŷn a phobl â dementia yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i aros yn eu cartref cyhyd â phosibl, neu i symud yn ôl adref cyn gynted â phosibl ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty.

Bydd pobl â dementia a'u teuluoedd yn cael mynediad at y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt.

### Gwariant prosiect – £129,767 (BY 2023/24)




### *Prosiectau/partneriaid sy'n cefnogi cyflawni:*

| |
|---|
| BIP CTM |
| CBS RCT |
| CBS MT |
| Vision Products |
| Gofal a thrwsio |
| Timau lles cymunedol |


### *Crynodeb o wariant:*

Mae'r cyllid a dderbynnir gan y Gronfa yn gyfraniad tuag at ddarparu ystod fwy o wasanaethau cymorth adsefydlu sy'n gweithredu ar draws y rhanbarth cyfan. Defnyddiwyd y cyllid a ddarparwyd yn ystod 2023/24 yn llawn yn ystod y flwyddyn.


## Allbynnau rhaglen (ffigyrau blynyddol):
*(gan gynnwys mesurau canlyniad ychwanegol)*

| | |
|---|---|
| Nifer yr atgyferiadau | 668 |
| Atgyfeiriadau at ailalluogi cof | 146 |
| Atgyfeiriaau at ailalluogi cof cymunedol penodol | 124 |
| Atgyfeiriadau at ofal cof canolraddol | 100 |
| Pobl a gefnogir ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbytu | 247 |
| Nifer y pecynnau gofal a ddarperir | 318 |
| Nifer yr oriau o gefnogaeth uniongyrchol a ddarparwyd | 20960 |
| | |
| | |

## Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol)
*(Rhifau)*




## Canlyniadau rhaglen: (mesurau sylfaenol)




## Trosolwg perfformiad: (crynodeb)

Mae'r Rhaglen Adsefydlu'n dangos perfformiad cadarn wrth gefnogi oedolion ar draws anghenion gofal amrywiol. Gyda 668 o atgyfeiriadau, gan gynnwys ymyriadau arbenigol, fel ailalluogi cof a theleofal ar gyfer 1,278 o unigolion, mae'r rhaglen yn amlygu dull rhagweithiol o wella annibyniaeth ac ansawdd bywyd. Hwyluswyd 247 o ryddhadau llwyddiannus o'r ysbyty, gan ddarparu 318 o becynnau gofal, sef cyfanswm o 20,960 awr o gymorth uniongyrchol. Mae gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn amlwg trwy 412 o drafodaethau 'Beth sy'n cyfri' a thrwy rymuso 379 o unigolion i ddylanwadu ar eu penderfyniadau gofal. Mae'r rhaglen wedi cynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau lleol ymhlith 201 o unigolion ac wedi cysylltu 26 o bobl yn effeithiol â chymorth allanol priodol. Cydnabyddir heriau fel rheoli disgwyliadau cychwynnol a sicrhau asesiadau cywir. Ar y cyfan, mae perfformiad y rhaglen yn amlygu ei rôl hanfodol o ran hybu annibyniaeth, atal derbyniadau pellach i'r ysbyty, a darparu atebion gofal wedi'u teilwra yn ein cymuned.

## Effaith y rhaglen (ansoddol):

**Gwell Annibyniaeth:** Trwy gefnogi 322 o bobl i fyw'n annibynnol a chychwyn teleofal ar gyfer 1,278 o unigolion, mae'r rhaglen yn galluogi mwy o ymreolaeth a diogelwch, gan feithrin hyder a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau gofal dwys.

**Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn:** Drwy gyfrwng 412 o drafodaethau "Beth sy'n cyfri" a thrwy rymuso 379 o unigolion i ddylanwadu ar eu gofal, sicrhaodd y rhaglen fod gwasanaethau'n cael eu teilwra i anghenion a dewisiadau unigol, gan hyrwyddo urddas.

**Integreiddio Cymunedol Gwell:** Drwy gynyddu gwybodaeth am wasanaethau lleol a chysylltu unigolion â chymorth perthnasol, mae'r rhaglen yn cryfhau cysylltiadau cymunedol ac yn galluogi cymorth y tu hwnt i anghenion gofal uniongyrchol.

**Atal Derbyniadau i'r Ysbytai:** Mae hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn llwyddiannus a darparu pecynnau gofal, yn dangos effeithiolrwydd y rhaglen o ran lleihau derbyniadau diangen i'r ysbyty, lleihau'r pwysau ar adnoddau ysbyty a hyrwyddo parhad gofal yn y cartref.

**Cymorth i Ofalwyr:** Mae ymgysylltu â theuluoedd a gofalwyr yn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu a'u cynnwys, gan gyfrannu at amgylchedd cefnogol.

## Argymhellion:

**Parhau i ariannu'r Rhaglen.**

Dangosodd y rhaglen dystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl a gefnogir a'u gofalwyr.

Bydd elfen ailalluogi'r Gronfa yn rhan o gynlluniau'r dyfodol ynghylch darparu'r 2 lwybr newydd a bydd yn rhan annatod o gefnogi pobl y tu allan i'r ysbyty a'u galluogi i aros yn annibynnol ac yn ddiogel gartref.

**Ystyriaethau ychwanegol:**

**Technoleg:** Dylid buddsoddi ymhellach mewn atebion technoleg fel teleofal a systemau monitro o bell i wella effeithlonrwydd y gwasanaeth, gwella amseroedd ymateb, a darparu system rheoli gofal rhagweithiol.

**Cynyddu Cynhwysedd:** Dylid dyrannu cyllid ar gyfer ehangu'r gallu i ateb y galw cynyddol, yn enwedig gyda gweithredu timau rhyddhau o'r ysbyty newydd.

**Ymgysylltiad Cymunedol a Phartneriaethau:** Dylid dyrannu cyllid i gryfhau partneriaethau gyda sefydliadau cymunedol. Byddai'r cydweithio hwn yn gwella llwybrau atgyfeirio, yn gwella parhad gofal, ac yn gwneud y gorau o adnoddau i gefnogi unigolion sy'n byw'n annibynnol.